COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DYDD IAU, 27 EBRILL 2023, AM 10:00

Presennol

G Chapman – Cadeirydd (aelod lleyg)

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| C Davies | S J Griffiths | D M Hughes | M L Hughes | A Wathan | A Williams |
| RM Granville | S J Bletsoe | | | | |

Aelodau Lleyg

B Olorunnisola Bagley

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Dim

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Carys Lord | Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid |
| Nigel Smith | Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd |
| Sara-Jane Byrne | Archwilio Cymru |
| Rachel Freitag | Archwilio Cymru |
| Joan Davies | Dirprwy Pennaeth Gwasanaeth Archwilio Rhanbarthol |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus |
| Andrew Wathan | Pennaeth Gwasanaeth Archwilio Rhanbarthol |
| Kate Pask | Swyddog Gwella Corfforaethol - Perfformiad |
| Michael Spanswick | Swyddog Cefnogi Gwybodaeth a Systemau – Perfformiad |

61. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Dim

62. CYMERADWYO'R COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dyddiedig 26 Ionawr 2023 yn amodol ar ddau newid: yr angen i wahaniaethu rhwng Aelodau ac Aelodau Lleyg yng nghofnodion y cyfarfod diwethaf ac ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod a dileu 'Y Cynghorydd' o enw'r Cadeirydd (gwnaed y ddau ar wefan CBSP cyn y cyfarfod).

Tynnodd Aelod sylw at y cofnod ar yr olrheiniwr rheoleiddio (tudalen 4) yn dweud bod angen am naratif o amgylch y categorïau Ambr a Choch, yn enwedig sut y byddai'n bosibl adnabod y swyddogion oedd yn gyfrifol am y cynlluniau cywiro ac am gymeradwyo argymhellion. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai swyddogion gael golwg ar hyn mewn trafodaethau ynghylch yr olrheiniwr rheoleiddio.

63. COFNOD GWEITHREDU'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynodd Uwch Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau - yr adroddiad, gan nodi mai ei ddiben oedd rhoi diweddariad i'r Aelodau am Gofnod Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Roedd hwn wedi cael ei ddyfeisio i

gynorthwyo'r Aelodau i olrhain y penderfyniadau a wnaed gan y Pwyllgor, gan gynnwys unrhyw gamau oedd i ddilyn lle bo angen.

Gofynnodd aelod am adroddiad ar seiberddiogelwch, a chytunwyd y gellid ystyried hyn fel rhan o'r drafodaeth ar y Flaenraglen Waith.

Awgrymodd y Cadeirydd yr ymdrinnid â rhai o’r materion yn yr adroddiad yn y cyfarfod oherwydd bod adroddiadau cynhwysfawr o dan Eitem 5, Adroddiadau’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gan Archwilio Cymru, ond yr oedd arno eisiau tynnu sylw at ddwy eitem:

- Y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Gofynnodd y Cadeirydd am gadarnhad bod hwn wedi derbyn sylw, a rhoddwyd hynny.
- Cwynion Corfforaethol. Nododd y Cadeirydd fod yr adroddiad diweddaru mewnol ar y mater hwn i gael ei gyflwyno i'r Aelodau yn y cyfarfod hwn. Cytunwyd y câi'r adroddiad ei ychwanegu at y Flaenraglen Waith i'w gyflwyno i gyfarfod mis Mehefin y pwyllgor.

Nododd cynrychiolydd o Archwilio Cymru fod yna gam gweithredu ar gyfer Archwilio Cymru yn gysylltiedig â chysgu allan a digartrefedd. Mewn ymateb, nododd hi, o ran mesurau perfformiad a metrigau, mai Llywodraeth Cymru sy’n gosod y mesurau perfformiad cenedlaethol ar gyfer digartrefedd a chysgu allan, a’u bod hefyd wedi bod yn coladu data misol. Cafodd y rhain eu rhannu gyda'r Prif Weithredwr a gellid rhannu'r rhain yn ehangach ag Aelodau'r pwyllgor i ddarparu rhagor o wybodaeth ynghylch y pwnc.

Tynnodd Aelod Lleyg sylw at y camau gweithredu hynny yn ymwneud ag Asesiad Risg Corfforaethol 2022-23, oedd wedi cael eu categoreiddio fel ‘Parhaus’, o ran pryd y caent eu dwyn gerbron y pwyllgor, ac a oedd angen cael hyn yng Nghofnod y Camau Gweithredu. Byddai eitemau o'r fath yn y Cofnod Gweithredu yn barhaol.

Mewn ymateb, nodwyd y câi’r asesiad risg corfforaethol ei adolygu'n rheolaidd iawn, a’i fod i ddod yn ôl i'r pwyllgor hwn ym mis Mehefin. Mae'n cael ei ddiweddaru ar hyn o bryd, gan gymryd i ystyriaeth y sylwadau a wnaed gan yr Aelodau y tro diwethaf ynghylch problemau cyflwyno.

PENDERFYNWYD:

Nododd y pwyllgor y Cofnod Gweithredu a rhoddodd sylwadau ar hyn, fel oedd yn briodol.

Cytunwyd i ofyn i'r Prif Weithredwr gylchredeg y data oedd yn deillio o'r mesurau perfformiad a'r metrigau (gan gynnwys y data misol) oedd yn deillio o'r mesurau perfformiad cenedlaethol ar gyfer digartrefedd a chysgu allan a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

64. ADRODDIADAU AR Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO GAN ARCHWILIO CYMRU

Pwrpas yr adroddiad oedd cyflwyno i'r Pwyllgor adroddiadau gan Archwilio Cymru, gan gynnwys diweddariad ar y gwaith archwilio ariannol ac archwilio pherfformiad a wnaed, ac sydd i'w wneud, gan Archwilio Cymru, ynghyd ag ymateb y rheolwyr i'r Adolygiad Rheoli Perfformiad.

Darparodd Archwilio Cymru nifer o adroddiadau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio eu hystyried. Y rhain oedd:

**Rhaglen Waith ac Amserlen Archwilio Cymru (Atodiad A)** –
o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol lunio diweddariad i'r rhaglen waith ar gyfer pob blwyddyn ariannol i bob prif gyngor yn cwmpasu ei swyddogaethau ef a swyddogaethau'r 'rheoleiddwyr perthnasol' (Arolygiaeth Gofal Cymru ac Estyn). Yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Gorffennaf 2021, adroddodd Archwilio Cymru y byddant yn darparu fersiwn wedi'i diweddaru o'r adroddiad hwn i'r Cyngor yn chwarterol. Rhydd **Atodiad A** y sefyllfa ddiweddaraf fel ar 31 Mawrth 2023.

**Crynodeb o Archwiliad Blynyddol 2022 (Atodiad B) –** dengys yr adroddiad hwn y gwaith a gwblhawyd ers Crynodeb yr Archwiliad Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2022. Mae'r crynodeb o'r archwiliad yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Adolygiad Rheoli Perfformiad (Atodiad C)** – mae'r adroddiad yn ymdrin â'r adolygiad o drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor, sy'n cael ei gynnal
er mwyn gweld pa mor dda y maent yn hysbysu'r Cyngor am gynnydd o ran cwrdd â'i flaenoriaethau, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2023. Ceir
ymateb y rheolwyr i'r adroddiad hwn ynghlwm fel **Atodiad D.**

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio o Archwilio Cymru yr adran archwilio ariannol yn yr adroddiad cyntaf yn fyr, gan nodi bod eu harchwiliad o ddatganiadau ariannol 2021-22 a gwaith grantiau 2021-22 bellach wedi cael ei gwblhau.

Cydnabu eu bod yn hwyr yn llofnodi cyfrifon y llynedd oherwydd nifer o faterion cenedlaethol a bod gwaith cynllunio yn mynd rhagddo yn awr ar gyfer archwiliad ariannol 2022-23.

O ran datganiadau ariannol 2022-23, nododd eu bod yn gobeithio dod â chynllun archwilio amlinellol i gyfarfod nesaf y pwyllgor ac y bydd cynllun manylach yn dilyn hynny ar ddiwedd y gwaith cynllunio. Oherwydd dull diwygiedig o archwilio eleni, bu'n rhaid mynd drwy'r camau a gweithio allan yn fanwl beth oedd y risgiau archwilio cyn cwblhau cynllun cyflawn.

Darparodd y Rheolwr Archwilio Perfformiad yn Archwilio Cymru drosolwg byr ar agweddau'r adroddiad oedd yn ymdrin ag archwilio perfformiad.

O ran proses sicrwydd ac asesu risg Archwilio Cymru, mae hwn yn waith sy'n cael ei wneud ar draws y ddau Gyngor ar hugain i edrych ar amrywiaeth o wasanaethau a threfniadau. Mae hyn yn galluogi Archwilio Cymru i benderfynu a oes gan gynghorau drefniadau priodol ac a ydynt yn cwrdd â'u hegwyddor datblygu cynaliadwy, ond mae hefyd yn gymorth i lywio gwaith yn y dyfodol.

Mae sefyllfa ariannol y ddau gyngor ar hugain yn ddarn parhaus o waith.

O ran rheoli'r rhaglen gyfalaf, mae Archwilio Cymru yn gobeithio y bydd briff prosiect yn mynd allan i'r Cyngor yn weddol fuan, yn nodi cwmpas y gwaith hwnnw. Byddai hwnnw'n ddarn o waith fyddai'n cael ei wneud ar draws pob un o'r ddau gyngor ar hugain. Bwriedir cael adroddiad lleol yn ogystal ag allbwn cenedlaethol.

Ceir darn o waith thematig hefyd yn ymwneud â defnyddio gwybodaeth perfformiad. Unwaith eto, gwneir hynny ar draws pob un o'r ddau gyngor ar hugain. Bydd iddo ffocws

penodol. Edrych ar y wybodaeth ynghylch gwasanaeth, safbwynt y defnyddiwr, a'r canlyniadau. Mae Archwilio Cymru wrthi'n sefydlu'r gwaith hwnnw ar hyn o bryd.

Dywedodd hefyd fod Archwilio Cymru wedi bwriadu gwneud darn o waith yn ymwneud â gosod amcanion llesiant. O ganlyniad i ganolbwyntio ar feysydd gwaith eraill, penderfynwyd gohirio'r gwaith hwnnw tan 2023-24, ac mae Swyddogion wedi cael gwybod am hynny.

O ran darnau eraill o waith, mae adolygiad thematig o ofal na chafodd ei drefnu. Mae hwn yn cael ei wneud ar y cyd â chydweithwyr iechyd. Eto, mae hyn yn cael ei wneud ledled Cymru, ac er eu bod i fod i gyflwyno adroddiad ym mis Ebrill, ym mis Mai y gwneir hynny'n awr.

Mae darn o waith hefyd ynglŷn â strategaeth ddigidol ar draws pob un o'r ddau gyngor ar hugain. Y nod yw cwblhau'r gwaith hwnnw dros yr haf.

Roedd gweddill yr adroddiad yn ymdrin â rheoli perfformiad ac yn rhoi trosolwg ar rai o astudiaethau llywodraeth leol a lle rydym gyda'r rheiny, yn ogystal â gwaith y rheoleiddwyr eraill.

Tynnodd Aelod sylw at y rhan o'r adroddiad (yn Atodiad B) sy'n ymdrin â Bwrdd Rhaglen Arweinyddiaeth Trawsnewid rhanbarth Cwm Taf Morgannwg. Yn benodol, tynnodd yr Aelod sylw at beth oedd y pwyntiau gweithredu o ran sicrhau bod gwaith cynllunio'r Bwrdd yn fwy integredig ac yn fwy hirdymor, cryfhau agweddau ar ei drefniadau llywodraethu, a bod yn fwy uchelgeisiol wrth ddefnyddio ei adnoddau craidd cyfunol i gael mwy o effaith ar y rhanbarth.

Awgrymodd y Cadeirydd mai cwestiwn i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol oedd hwn ac y gallai Swyddogion ymgynghori â'r Aelod i edrych i mewn ymhellach i'r mater hwn.

Symudodd y pwyllgor ymlaen i ystyried Atodiad C, Adolygiad Rheoli Perfformiad – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Awgrymodd y Cadeirydd mai lle'r Swyddogion oedd ymateb i'r adroddiad hwn gan ei bod yn amlwg fod Archwilio Cymru wedi gwneud ei waith a bod cynllun gweithredu wedi cael ei baratoi.

O safbwynt swyddog ac o safbwynt y pwyllgor, byddai'n werthfawr cael adroddiad diweddaru yn y dyfodol am y camau sydd wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r argymhellion. Roedd yn bwysig i'r pwyllgor weld beth oedd wedi digwydd hyd yma, pwy oedd wedi gwneud beth a beth oedd y camau nesaf oherwydd, o leiaf, byddai gan yr Aelodau wedyn ddarlun cyflawn o'r cynllun a'r hyn oedd yn cael ei wneud.

Awgrymodd y Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus y gellid gwahodd Swyddogion oedd yn gyfrifol am unrhyw argymhellion rheoleiddiol, chwe mis ar ôl adroddiad, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am gynnydd. Awgrymodd ymhellach y byddai hyn yn sail i argymhelliad i'r Aelodau pan gâi'r traciwr rheoleiddio ei ystyried gan y pwyllgor ym mis Gorffennaf 2023.

O ran yr argymhelliad (A4) i wneud gwell defnydd o'r wybodaeth am berfformiad drwy roi blaenoriaeth i fwy o ddadansoddi data ynghyd ag ystod ehangach o wybodaeth er mwyn deall perfformiad, tynnodd Aelod sylw at waith Data Cymru.

Dywedodd ei fod wedi bod yn dilyn gwaith y sefydliad, a gychwynnwyd er mwyn cynorthwyo cynghorau lleol ynghylch defnyddio data. Dywedodd fod Data Cymru yn

hapus i osod pobl ac adnoddau ychwanegol, yn ogystal â rhannu arfer gorau, i gefnogi gweithgareddau fel y rhai a awgrymid yn Atodiad D.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelod am gysylltu â Data Cymru. Credai y byddai'n arbennig o ddefnyddiol pe bai rhywfaint o adnoddau ar gael y gellid eu defnyddio. O ran arfer da, gallai'r Cyngor weld a oedd yn dymuno ei fabwysiadu ai peidio.

Gan ddychwelyd at Atodiad B, tynnodd Aelod sylw at yr adroddiad ‘Amser i Newid’ – Tlodi yng Nghymru, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2022. Roedd yr Aelod yn croesawu’r adroddiad ac roedd yn falch bod sylw wedi cael ei roi ynddo i ddwy agwedd ar waith ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Gofynnodd beth oedd barn Archwilio Cymru ynglŷn ag ymateb y Cyngor i’r adroddiad.

Awgrymodd Rheolwr Archwilio Perfformiad Archwilio Cymru nad oedd Archwilio Cymru wedi gwneud unrhyw waith pellach ar y mater hwn ers cyhoeddi'r adroddiad. Gan mai dim ond yn yr hydref yr oedd yr adroddiad wedi cael ei gyhoeddi, bu'n rhaid rhoi ychydig o amser i gynghorau edrych arno ac ystyried eu hymateb. Awgrymwyd y byddai Swyddogion mewn gwell sefyllfa i ymateb o ran camau gweithredu penodol.

Fel rhan o waith dilynol Archwilio Cymru, yr hyn y maent yn ei wneud yw mynd yn ôl at gynghorau i ofyn iddynt sut y maent wedi ystyried eu hadroddiadau. Ysgrifennodd Archwilio Cymru at Gadeiryddion y pwyllgorau llywodraethu ac archwilio oddeutu 18 mis yn ôl i bwysleisio'r angen i roi ystyriaeth weithredol i adroddiadau. Ymhen amser, bydd Archwilio Cymru yn ceisio gwirio y bu rhyw fath o ystyriaeth ac ymateb. Caiff hyn ei wneud drwy edrych drwy'r olrheinwyr rheoleiddiol y mae cynghorau yn eu cynhyrchu. Efallai y bydd Archwilio Cymru hefyd yn dod yn ôl i ofyn i Gyngor pa gamau gweithredu a chynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion.

Ymatebodd y Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus hefyd drwy nodi na fyddai'r materion hyn yn cael eu nodi yn ein holrheiniwr rheoleiddio oherwydd bod hwnnw'n nodi argymhellion penodol i'r Cyngor. Fodd bynnag, mae gan y cynllun corfforaethol nod benodol o gwmpas trechu tlodi a chefnogi pobl mewn angen, a bydd ymrwymiadau a dangosyddion perfformiad yn erbyn hyn am y pum mlynedd nesaf.

Daeth yr Aelod yn ôl i awgrymu ei fod yn anghytuno â bron bopeth a ysgrifennwyd yn y paragraff oedd yn crynhoi’r adroddiad yn Atodiad B, ac yn enwedig yr adran oedd yn honni, “oherwydd cymhlethdod a natur y materion, nid yw cyfanswm y gwariant yn hysbys, ac nid oes yr un cyngor yn gwybod faint mae'n ei wario ar liniaru a threchu tlodi”. Tynnodd yr Aelod sylw at yr holl grantiau a gwariant dewisol o ffynonellau lluosog oedd yn cefnogi pobl yn y sir a’i bod yn glir y gellid defnyddio’r rhain i ddechrau’r broses o ddefnyddio data i ddeall yr hyn sy’n cael ei wneud i fynd i’r afael â thlodi yn lleol ac ar draws Cymru.

Ymatebodd y Cadeirydd drwy ddweud mai mater i bwyllgorau eraill, gan gynnwys y pwyllgorau craffu, oedd mynd i'r afael â'r materion hyn. Rôl y pwyllgor oedd edrych ar y mecanweithiau sicrwydd oedd ar waith o ran cyflawni ar y materion hyn. Nododd ei fod yn sicr y byddai Swyddogion yn codi hyn gyda'u cydweithwyr eraill mewn perthynas â'r pwyntiau hynny.

Ymatebodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid drwy ddatgan bod yr Aelod yn gywir wrth honni y gellid llunio rhestr o'r grantiau hynny sy'n mynd i'r afael â thlodi er nad yw'r cymorth a ddarperir i gyd yn cael ei ariannu gan grantiau. Nododd fod ganddi rywfaint o gydymdeimlad â'r sylw ynghylch pa mor gymhleth ydyw ac anodd ei olrhain. Ond o ystyried bod hwn yn faes sy'n peri pryder, efallai y byddai’r pwyllgor yn dymuno ei gyfeirio ymlaen i'w ystyried gan bwyllgorau eraill.

Gan gyfeirio at adroddiad Archwilio Cymru ar Gydweithio rhwng Gwasanaethau Brys (Ionawr 2022), nododd Aelod ei fod yn un o ddau gynrychiolydd y Cyngor i Awdurdod Tân De Cymru. Roedd gweithio ar y cyd ar frig yr agenda ac roedd llawer iawn o waith yn mynd rhagddo o ran TG a'r swyddfa gefn. Er mwyn dangos gwerth cydweithio, tynnodd sylw hefyd at enghraifft lwyddiannus yn ymwneud â'r gwasanaethau ambiwlans a thân ym Maesteg, sy'n rhannu safle.

Tynnodd yr Aelod sylw hefyd at adroddiad y Taliadau Uniongyrchol (Ebrill 2022) oedd yn edrych ar ddewis gwahanol i ofal neu gymorth a drefnir gan awdurdodau lleol. Dywedodd fod y system yn gymaint o newid, o ran sicrhau ein bod yn rheoli a'n bod yn cefnogi pobl sy'n agored i niwed yn ein sir. Ychwanegodd ei fod yn deall bod y system yn dod ar gost sylweddol o ran adnoddau ac o ran staff a'n bod ni i raddau helaeth iawn mewn proses drosiannol. Gofynnodd a oedd unrhyw arwydd o faint o adnoddau ychwanegol oedd yn mynd i mewn i'r broses hon yng Nghymru.

Atebodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid drwy nodi y byddai'n hapus i drafod hyn ymhellach gyda'r Aelod all-lein.

Gan gyfeirio'n ôl at sylwadau am ddiogelwch data yn gynharach yn y cyfarfod, roedd ar Aelod eisiau tynnu sylw at waith arall oedd yn edrych ar arfer gorau mewn cynghorau eraill ynghylch ansawdd data a rheoli data. Credai fod y cyngor yng nghanol y criw cyn belled ag yr oedd y materion hyn yn y cwestiwn ymhlith y ddau gyngor ar hugain. O ran arfer gorau, mae rhai cynghorau wedi sefydlu timau data arbenigol, sydd wedyn yn meddiannu pwnc llywodraethu data, ansawdd data ar draws yr awdurdod cyfan, nid mewn maes penodol yn unig. Awgrymodd y dylai'r cyngor ystyried sefydlu tîm data pwrpasol. Credai fod achos busnes cadarnhaol dros wneud hyn, oherwydd eu bod yn dod o hyd i broblemau o fewn y data sydd wedyn yn adlewyrchu refeniw a gollwyd neu wariant sy'n wariant diangen.

Awgrymodd y Cadeirydd y gallai'r Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid ystyried sôn am hyn wrth y tîm rheoli i'w ystyried ymhellach. Awgrymodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid fod yr Aelod wedi codi mater allweddol, ond roedd arni eisiau sicrhau'r Aelodau fod hyn ar radar y Cyngor eisoes. Trafodaethau ynglŷn â'r holl ddata sydd gan y Cyngor a sut y gellid ei dynnu ynghyd fel y gallwn yn gyntaf ei wirio, ei ddadansoddi, gweld beth mae'n ei ddweud wrthym, a gweithredu arno. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd ynglŷn â'r ffordd yr ydym yn rheoli data ar draws yr awdurdod, a beth yw'r fan orau i'w leoli, a beth yw'r ffordd orau o wneud hynny.

Gofynnodd y Cadeirydd am eglurder ynghylch pa bwyllgor fyddai'n edrych ar y materion hyn wrth i gynlluniau yn y maes hwn ddod at ei gilydd. Awgrymodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid y byddai hynny'n fater i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol.

Rhoddodd Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus drosolwg o ymateb y Cyngor i'r Adolygiad Rheoli Perfformiad (Atodiad C).

Cydnabu fod problemau yr oedd angen mynd i'r afael â hwy ond ychwanegodd fod rhai ffactorau lliniarol i'w cadw mewn cof.

Yn gyntaf, cynhaliwyd yr adolygiad ddiwedd yr haf pan oedd y tîm perfformiad i lawr i un person. Yn ail, nid oedd yr un testun syndod yn yr adroddiad. Roedd yn adleisio'n union yr hyn a godwyd yn hunanasesiad y Cyngor ei hun. Ac yna yn drydydd, ar ôl i'r tîm symud i dîm y Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus ym mis Tachwedd, mae cynllun gwella rheoli perfformiad wedi cael ei ddatblygu, sydd wedi cael ei ystyried gan CMB a CCMB. Mae'r prif flaenoriaethau wedi cael eu hamlinellu fel capasiti rheoli

perfformiad, yn y tîm perfformiad corfforaethol a gweithio ar berfformiad ar draws y Cyngor, a hefyd y Fframwaith Rheoli perfformiad.

Mae hefyd yn cynnwys materion a godwyd gan Archwilio Cymru fel dangosyddion perfformiad nad ydynt yn cwmpasu ehangder ein hamcanion llesiant, dangosyddion perfformiad sy'n canolbwyntio ar ymrwymiadau yn hytrach na'r hyn yr ydym mewn gwirionedd yn ceisio ei gyflawni a diffyg canolbwyntio ar ddata canlyniadau. Mae'n ymdrin ag ansawdd a chywirdeb data, gan gynnwys datblygu dogfennau yn diffinio dangosyddion perfformiad a thystiolaeth a data meincnodi gwell, yn ogystal â gwella diwylliant ein perfformiad, a diffinio rolau a chyfrifoldebau yn gliriach. Yn olaf, mae'n ymdrin â'r system rheoli perfformiad, sy'n hen system nad yw'n cael ei defnyddio i'w llawn botensial.

Mae yna rai enillion cyflym a phethau sydd eisoes ar y gweill.

O ran meithrin gallu yn y tîm, mae pedwar o raddedigion wedi cael eu penodi yn lle'r Swyddog ar secondiad. Mae adroddiadau CPA wedi newid, ac felly adroddir crynodeb o'r argymhellion yn ogystal â'r wybodaeth fanwl am berfformiad ac rydym wedi ychwanegu cyfarfod yn ôl i'r calendr ar gyfer Chwarter 3.

Gofynnwyd i Archwilio Mewnol gynnal archwiliad o ddangosyddion perfformiad, ac adroddodd yn ôl ar ffurf drafft yr wythnos hon. Rhoddodd hyn sicrwydd rhesymol mewn nifer o feysydd gan gynnwys cywirdeb ac adrodd synhwyrol.

Cafodd yr olrheiniwr rheoleiddio ei greu fel bod holl adborth archwilio a rheoleiddio'r Cyngor yn un lle ac yn cael ei oruchwylio gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Cesglir gwybodaeth ychwanegol yn chwarterol fel rhan o'r mesur perfformiad chwarterol arferol i wella ein proses hunanasesu ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Yn ogystal, ceir dull gwahanol o gynllunio corfforaethol ac mae cynllun cyflawni'r cynllun corfforaethol wrthi'n cael ei ddatblygu, sy'n cynnwys craffu cyn penderfynu a llawer o ymwneud ac ymgysylltu ag Aelodau a rhanddeiliaid eraill.

Yn ogystal â hynny, y bwriad yw llenwi'r swydd sy'n dal yn wag yn y tîm, a dod o hyd i gartref parhaol i'r tîm perfformio.

Bydd y tîm hefyd yn datblygu fframwaith perfformiad newydd wedi ei ddiweddaru ar gyfer y Cyngor ac yn darparu canllawiau wedi eu diweddaru ar rolau, cyfrifoldebau, a dyddiadau a gofynion adrodd. Mae ar y tîm hefyd eisiau codi ymwybyddiaeth o'r cynllun corfforaethol a chynllun cyflawni'r cynllun corfforaethol drwy sesiynau sefydlu, e-ddysgu a briffio staff.

Mae camau gweithredu hefyd ar gyfer timau cymorth busnes a pherfformiad mewn cyfarwyddiaethau, fydd yn y tymor byr yn ymwneud ag amserlenni a chywirdeb data a sylwadau, ymatebion i heriau a hefyd cefnogi datblygiad y dangosyddion newydd ar gyfer cynllun cyflawni'r cynllun corfforaethol.

Yn y tymor hwy, mae'r gwelliannau sydd eu hangen yn fwy sylweddol ac yn fwy strategol, ac felly mae mwy o ganolbwyntio ar bethau fel diwylliant ac fel y cyfryw bydd angen iddynt gael eu harwain o'r brig gan y Bwrdd Rheoli Corfforaethol. Mae'r rheiny'n bethau fel datblygu diwylliant herio cryfach, gwella'r modd y mae Aelodau'n craffu ar berfformiad, ac ystyried system i gymryd lle'r system TG rheoli perfformiad.

Nododd Aelod fod hwn yn bwnc pwysig oherwydd na ellir mesur perfformiad y Cyngor oni bai bod y data craidd gennym, a chyfrifoldeb y Prif Weithredwr yw hyn. Aeth ymlaen i

ddweud bod hon yn rhaglen waith enfawr, heriol dros ben, hynod o eang ac yn ymwneud â diwylliant y Cyngor, sy'n dod oddi wrth y Prif Weithredwr. O'r herwydd, gofynnodd yr Aelod i'r rhai sy'n gosod ac yn adolygu amcanion y Prif Weithredwr gynnwys un penodol ynghylch dangosyddion perfformiad ar gyfer y rhaglen waith hon.

Mewn ymateb awgrymodd y Cadeirydd, er nad oedd yn fater uniongyrchol i'r pwyllgor hwn, y gallent yn sicr ofyn i'r Cabinet ystyried y mater hwn ac a ellid ei gynnwys mewn unrhyw arfarniad o'r Prif Weithredwr yn y dyfodol.

Nododd Aelod arall y wybodaeth bryderus iawn yn adroddiad Archwilio Cymru, yn enwedig sut aeth y Cyngor i sefyllfa lle nad oedd ond un aelod o staff yn y Tîm. Credai mai rhan o rôl y Pwyllgor oedd gwneud yn siŵr nad oedd hynny'n digwydd eto, a'i bod yn hanfodol bod adrannau'n cael eu staffio'n briodol. Gwnaeth yn glir ei fod yn cefnogi'n llwyr y camau gweithredu a'r argymhellion a gyflwynwyd gan y Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus.

Nododd y Cadeirydd fod Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol wedi codi'r mater hwn gyda'r Prif Weithredwr ac mai'r Rheolwr Polisi Corfforaethol a Materion Cyhoeddus oedd y Swyddog cyfrifol. Roedd yn gobeithio bod Aelodau o'r Pwyllgorau wedi cael sicrwydd bod hyn yn derbyn sylw ac y byddai adroddiad arall yn cael ei gyflwyno maes o law ar y cynnydd oedd yn cael ei wneud.

Ychwanegodd y gallai'r gwaith hwn, ochr yn ochr â'r awgrymiadau a wnaed gan Aelod arall, ar werth data a pherfformiad, alluogi Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr i arddangos arfer da a chael ei weld fel esiampl unwaith y deuid i  ddiwedd y gwaith hwn.

PENDERFYNWYD:

Nododd y Pwyllgor Adroddiadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gan Archwilio Cymru yn **Atodiadau A, B** ac **C**, ac ymateb y rheolwyr i'r Adolygiad Rheoli Perfformiad yn **Atodiad D**.

Argymhellodd y pwyllgor fod Swyddogion yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf fel y bo'n briodol i bwyllgorau ar y ffordd y mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn mynd i'r afael ag agenda tlodi ac yn ymateb i adroddiad Archwilio Cymru, 'Amser i Newid' – Tlodi yng Nghymru (Tachwedd 2022).

65. CYNNYDD YN ERBYN CYNLLUN SEILIEDIG AR RISG ARCHWILIO MEWNOL 2022-23

Pwrpas yr adroddiad oedd rhoi datganiad sefyllfa i Aelodau'r Pwyllgor ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y gwaith archwilio oedd wedi ei gynnwys ac a gymeradwywyd yng Nghynllun Seiliedig ar Risg Archwilio Mewnol 2022-23.

Cyflwynwyd y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2022-23 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei ystyried a'i gymeradwyo ar yr 22ain o Fehefin 2022. Roedd y Cynllun yn amlinellu'r aseiniadau oedd i gael eu cynnal fyddai'n rhoi digon o wybodaeth i fedru ffurfio barn ar ddiwedd 2022-23.

Roedd y Cynllun yn hyblyg i ganiatáu ar gyfer newid mewn amgylchiadau a digwyddiadau a allai godi, megis ceisiadau i ymateb i faterion newydd a allai ddod i'r amlwg.

Mae'r cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun a gymeradwywyd, ar gyfer y cyfnod o'r 1af o Ebrill 2022 hyd yr 31ain o Fawrth 2023, wedi ei atodi yn Atodiad A. Rhydd hwn sefyllfa bresennol pob adolygiad a gynlluniwyd, y farn archwilio, a'r nifer o argymhellion blaenoriaeth uchel, canolig neu isel a gafodd eu gwneud i wella'r amgylchedd rheoli.

Dylid nodi nad oes gan rai adolygiadau a restrwyd farn archwilio, er enghraifft, cyngor ac arweiniad ac adroddiadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio/Bwrdd Rheoli Corfforaethol (CMB). Y rheswm am hyn yw bod y gwaith archwilio a wnaed ar yr eitemau hyn wedi cael ei gynllunio ond nad yw natur y gwaith yn arwain at brofi a ffurfio barn archwilio, er y gwneir argymhellion mewn rhai achosion.

Dengys Atodiad A fod cyfanswm o ddau ar bymtheg o archwiliadau wedi cael eu cwblhau gyda barn archwilio tra mae chwe archwiliad pellach wedi cael eu cyhoeddi mewn ffurf ddrafft. Disgwylir adborth gan yr adrannau gwasanaeth gyda golwg ar gynlluniau gweithredu'r rheolwyr ar gyfer yr archwiliadau drafft hyn ac unwaith y bydd yr adborth wedi cael ei dderbyn caiff yr adroddiadau eu cwblhau. Yn ogystal, mae deg archwiliad yn cael eu hadolygu a disgwylir i'r adroddiadau archwilio drafft gael eu cyhoeddi'n fuan. Felly, amcangyfrifir y bydd barn archwilio tri deg tri o archwiliadau yn bwydo i mewn i'r farn archwilio flynyddol gyffredinol ar gyfer 2022-23.

Yn seiliedig ar yr asesiad o gryfderau a gwendidau’r meysydd a archwiliwyd drwy roi prawf ar effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli mewnol mae’r farn archwilio ar gyfer y 17 o archwiliadau fel a ganlyn: pump wedi cael sicrwydd sylweddol, 11 sicrwydd rhesymol ac un archwiliad wedi cael barn archwilio o sicrwydd cyfyngedig, hynny yw, dim ond sicrwydd cyfyngedig y gellir ei roi ar y system bresennol o reolaeth fewnol.

Roedd yr un olaf hwn yn ymwneud ag ysgol gynradd ac mae’r manylion wedi eu cynnwys yn yr adroddiad, ond roedd y materion allweddol yn ymwneud â threfniadau llywodraethu. Cynhaliwyd yr archwiliad hwn ym mis Hydref 2022. Er bod rhai cryfderau wedi cael eu nodi, gwelwyd bod y pandemig wedi effeithio’n sylweddol ar yr ysgol a darganfuwyd problemau allweddol. Roedd y rhain yn ymwneud â’r Corff Llywodraethu a fethodd â chwrdd â’r gofyniad statudol i gyfarfod bob tymor yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22 oherwydd bod problemau Aelodaeth a phresenoldeb yn golygu nad oedd cworwm. O ganlyniad, nid oedd tystiolaeth bod rhai materion allweddol megis y gyllideb a pholisïau wedi cael eu hadolygu a'u cytuno gan y Corff Llywodraethu. Nodwyd materion hefyd o ran cronfa breifat yr ysgol.

Cytunwyd ar yr holl argymhellion a wnaed yn yr ysgol hon a chynhelir ymweliad archwilio arall i sicrhau bod cynnydd yn cael ei wneud a bod y risgiau a nodwyd wedi cael eu lliniaru.

Mae Atodiad A hefyd yn nodi'r archwiliadau oedd heb eu cwblhau yn ystod 2022/23. O'r rhain, mae dau wedi cychwyn ac yn cael eu cario ymlaen tra mae naw arall heb ddechrau ond fydd yn cael eu hystyried yng nghynllun 2023/24. Mae un archwiliad na chafodd ei gynnal ac na fydd yn cael ei gynnwys yng nghynllun 2023/24, sef adolygiad o gynlluniau grant gan Lywodraeth Cymru a ddyrannwyd yn ystod ac ar ôl y pandemig.

Mae Atodiad A yn nodi bod pedwar deg un o argymhellion blaenoriaeth ganolig a 49 o argymhellion blaenoriaeth isel wedi cael eu gwneud hyd yma i wella'r amgylchedd rheoli. Mae gweithrediad yr argymhellion hyn yn cael ei fonitro i sicrhau bod y gwelliannau a nodwyd ac y cytunwyd arnynt yn cael eu gwneud.

Fel yr adroddwyd yn ystod y flwyddyn, mae’r Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol (RIAS) wedi llwyddo i recriwtio staff archwilio newydd yn ystod 2022-23 ond, fel y dywedwyd o’r blaen, nid yw’r staff newydd wedi cael effaith ar yr adnoddau presennol sydd ar gael i gyflawni’r cynllun archwilio mewnol oherwydd y cymorth a’r hyfforddiant oedd eu hangen. Lluniwyd y cynllun gan dybio y byddai’r sefydliad yn llawn ac er bod Gwasanaethau Archwilio Mewnol SWAP wedi cynorthwyo, ni chynhaliwyd naw archwiliad oedd wedi eu cynllunio yn ystod 2022/23.

Fodd bynnag, amcangyfrifir y caiff tri deg tri o archwiliadau eu cwblhau gyda barn archwilio. Bydd y rhain, ynghyd â ffynonellau sicrwydd eraill megis adroddiadau asesu allanol gan Arolygiaeth Gofal Cymru, Estyn a'n hunanasesiadau risg rheoledig ni ein hunain a gwblhawyd gan bob ysgol, yn darparu digon o wybodaeth i alluogi'r Pennaeth Archwilio Mewnol i ddarparu barn ar drefniadau'r Cyngor ar gyfer rheolaeth fewnol, llywodraethu a threfniadau rheoli risg drwy gydol 2022-23.

Gan gyfeirio at y mater o seiberddiogelwch, tynnodd Aelod sylw at y ffaith ei fod yn ei waith proffesiynol arall wedi ymweld â nifer o gwmnïau Ewropeaidd mawr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a'u bod yn ofnus iawn ar hyn o bryd, yn enwedig ynghylch problem *ransomware*. Nododd y gallai hyn gael effaith ddirfodol bosibl ar y Cyngor, sy'n golygu, pe baem yn cael ein taro gan un o'r rhain, y gallem, er enghraifft, fod mewn sefyllfa lle byddai ein holl Swyddogion yn methu ag agor eu gliniaduron. Cyfeiriodd at enghraifft Maersk, y cwmni llongau cludo cynwysyddion mawr, oedd wedi gorfod cau'r busnes am ddau fis. Pe bai'n rhaid inni gau'r holl wasanaethau hynny am hyd yn oed wythnos, yna byddai'r effaith yn ddinistriol.

Y prif fector ar gyfer hyn yw hacio Rwsiaidd ac yn anffodus nid yw'r *ransomware* a'r ymosodiadau cysylltiedig yn rai manwl, felly gallant fod yn targedu un cwmni, ond mewn gwirionedd yn taro pawb arall. Roedd yr Aelod yn pryderu y byddai modd inni gael ein taro'n ddamweiniol y tu allan i dargedau gwirioneddol hacwyr Rwsia.

Gofynnodd am i waith seiberddiogelwch gael y lefel uchaf o flaenoriaeth oherwydd bod y risg hon yn hynod debygol a hefyd yn cael effaith hynod o fawr. Dyna'r un peth fyddai'n cau'r Cyngor.

Nododd y Cadeirydd na ddylai'r Cyngor aros am archwiliad ar y mater hwn os oedd mor bwysig â hynny. Roedd yn hyderus ei fod eisoes ar agenda'r tîm rheoli. Gobeithiai y gellid codi hyn eto drwy un o'r pwyllgorau craffu a'r tîm rheoli oherwydd bod yna awdurdodau lleol oedd wedi cael eu taro, a'i bod yn hollbwysig sicrhau bod systemau'n ddigon cadarn i ymdrin â beth bynnag a ddeuai i mewn i'r awdurdod. Nododd, pe bai arbenigwr TG yn y cyfarfod, y byddai'n cydnabod bod ymosodiad ar CBS Pen-y-bont ar Ogwr 10/15/20 gwaith y dydd. Ond nid oedd yn meddwl ei fod yn fater i'r pwyllgor.

Mewn ymateb, gwnaeth y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid, ddau bwynt: yn gyntaf, er mwyn rhoi sicrwydd, roedd adolygiad allanol wedi cael ei gwblhau ac roedd angen ystyried yr adborth i benderfynu a oes angen i'r Cyngor gymryd unrhyw gamau o ran y mater hwn. Yn ail, mae'r pwyllgor i fod i gael yr asesiad risg corfforaethol wedi'i ddiweddaru ym mis Mehefin a'r ffordd yr oedd hyn yn cael ei wneud yn ddiweddar oedd plymio'n ddyfnach i un neu ddau o'r materion yn y pwyllgor oherwydd ei fod yn dod â'r materion yn fyw i'r Aelodau. Byddai'n briodol plymio'n ddyfnach i seiberddiogelwch yn y cyfarfod nesaf a gellid gwahodd ein staff TG i fod yn bresennol.

Awgrymodd y Cadeirydd, ar wahân i gael swyddogion yn bresennol yn y cyfarfod, y gallai Aelod y Cabinet â chyfrifoldeb dros TG hefyd fod yn bresennol fel bod yr Aelodau'n dod i ddeall y mater yn gyffredinol.

Gan symud ymlaen, gofynnodd Aelod Lleyg a oedd modd blaenoriaethu archwiliadau a hefyd penderfynu nifer y dyddiau i'w neilltuo iddynt.

Gyda golwg ar y drafodaeth ynghylch seiberddiogelwch a TG, roedd yn dyfalu ynghylch proffil risg presennol y mater hwn. Nododd mai mater o amser yn unig oedd hi nes y byddai rhywbeth yn digwydd ac yna beth fyddai'r cynllun ymateb? Roedd angen iddo fod yn barod i gael ei godi'n syth a'i weithredu. Credai y byddai'n gymorth i weld y gofrestr risg yn y pwyllgor nesaf.

Gan ddod yn ôl at y cynllun cyffredinol, nododd nad oedd naw archwiliad neilltuol wedi cael eu cynnal o ganlyniad i broblem adnoddau, a holodd a oedd unrhyw fath o gysoni wedi digwydd o ran y dyddiau a gollwyd oherwydd swyddi gweigion, salwch ac yn y blaen.

Ymatebodd Dirprwy Bennaeth RIAS i sylwadau am seiberddiogelwch drwy nodi bod cynllun 2022-23 yn cyfeirio at waith a wnaed mewn perthynas â seiberddiogelwch fel gwaith 'dan adolygiad', hynny yw, bod archwiliad wedi cael ei gynnal ar fregusrwydd a rheoli ardaloedd ac unwaith y bydd wedi cael ei adolygu, cyhoeddir adroddiad drafft, a rhoddir barn i mewn yng nghynllun cyffredinol 2022-23. Dylid nodi hefyd y bydd seiberddiogelwch yn ogystal â rhaglen archwilio TGCh yn y cynllun ar gyfer 2023-24.

Nododd hefyd fod gan y gwasanaeth un archwiliwr TG cymwys, a bod un arall wedi dechrau hyfforddiant.

O ran y naw archwiliad heb eu cwblhau, roedd nifer o resymau pam na ellid eu cynnal, gan gynnwys adnoddau, ceisiadau am wasanaeth a materion amseru. Roedd SWAP wedi gwneud rhywfaint o’r gwaith, ond caiff yr archwiliadau sy'n weddill eu cynnwys yng nghynllun 2023-24.

Cyfeiriodd y Cadeirydd yn ôl at y pwynt a wnaed gan yr Aelod Lleyg ynghylch blaenoriaethu. Nododd, os oedd archwiliad yn flaenoriaeth uchel yn 2019-2020 a’i fod yn dal yn flaenoriaeth uchel, yna’n amlwg y dylid cynnwys hyn yng nghynllun archwilio 2023-24.

Tynnodd Aelod arall sylw at y mater o hunanymwybyddiaeth a bod y gallu i hunanasesu yn allweddol i allu cynnal archwiliad.

Holodd Aelod am y cyfeiriadau at dwyll / gwall / afreoleidd-dra ac ystyr y blwch gwag yn erbyn ‘Ymchwiliadau i Afreolaidd-dra - Gwaith adweithiol lle’r amheuir bod afreoleidd-dra wedi ei ganfod.’

Eglurodd Dirprwy Bennaeth RIAS eu bod yn neilltuo rhai dyddiau rhag ofn bod ymchwiliadau yn cael eu cyflwyno yn ystod y flwyddyn. Yn yr achos hwnnw, neilltuwyd diwrnodau i fater penodol ynghylch Cywirdeb Data a Llwythi Achosion. Nid archwiliad penodol ydoedd ond ymchwiliad.

Gwnaed argymhellion i wella'r amgylchedd rheoli. Gwnaed dau argymhelliad canolig ac un argymhelliad isel o ganlyniad i'r gwaith hwnnw.

Gofynnodd Aelod arall sut y gwnaed y penderfyniad i beidio â chynnal y naw archwiliad.

Cadarnhaodd Pennaeth RIAS fod hwn yn benderfyniad gan Reolwyr Archwilio Mewnol a fyddai wedyn yn hysbysu’r CMB. Ar adegau, byddant yn gohirio archwiliad er mwyn cynorthwyo rheolwyr gwasanaeth. Weithiau bydd ganddynt flaenoriaethau uwch na chael archwiliad ac mae'r gwasanaeth yn ceisio deall hynny a darparu ar ei gyfer. Mae yna achlysuron hefyd pan nad oes adnoddau i wneud y gwaith.

O ran y broses gynllunio, mae'r gwasanaeth yn nodi a yw archwiliad yn risg uchel, canolig neu isel a byddai hynny'n cael ei ddangos yn y cynllun. Dywedodd y byddent yn darparu mwy o wybodaeth am y ffordd y maent yn blaenoriaethu archwiliadau pan fydd y pwyllgor yn derbyn y cynllun ar gyfer 2023-24 ym mis Mehefin. O bryd i'w gilydd, caiff archwiliad sy’n flaenoriaeth uchel ei ohirio tan y flwyddyn ganlynol ac yna cynhelir asesiad risg blynyddol o ran y broses gynllunio i sicrhau mai’r rheiny fydd yn cael sylw yn gyntaf.

Mewn ymateb, nododd y Cadeirydd pan ddaw'r rhestr o archwiliadau i'w cynnal yn 2023-24 ymlaen ym mis Mehefin, os bydd unrhyw faterion sydd wedi bod yn weddill ers nifer o flynyddoedd ac yn dal yn flaenoriaeth, y dylai'r Pwyllgor ddweud y dylid cynnal yr archwiliadau hynny y flwyddyn honno. Cyfle yw adolygiad archwilio ac nid bygythiad. Gallai'r tîm sy'n cynnal yr archwiliad godi rhai pwyntiau dilys iawn fyddai'n cyfrannu at well perfformiad a darparu gwasanaeth gwell.

PENDERFYNWYD:

Bod Aelodau'r Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad a'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Seiliedig ar Risg Archwilio Mewnol 2022-23.

## 66. SIARTER Y GWASANAETH ARCHWILIO MEWNOL RHANBARTHOL 2023-24

Pwrpas yr adroddiad oedd cyflwyno Siarter y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol ar gyfer 2023-24 i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei chymeradwyo.

Nododd Pennaeth newydd RIAS fod hon yn ddogfen bwysig gan ei bod yn egluro'r trefniadau llywodraethu sydd yn eu lle.

Mae Siarter RIAS yn gosod sefyllfa gweithgarwch archwilio mewnol o fewn pob Cyngor ynghyd â'r llinellau adrodd. Mae'n ddogfen ffurfiol sy'n diffinio pwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb gweithgareddau archwilio mewnol.

Mae'r Siarter yn diffinio pwrpas, awdurdod, a chyfrifoldebau'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol ar draws Cynghorau Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. Cafodd y Siarter ei hadolygu'n llawn a'i diwygio ar gyfer 2020-21 i ddatblygu siarter gyson ar gyfer y pedwar Cyngor ac i fod yn gyson ag amcanion y Cydwasanaeth, hynny yw, dileu dyblygu a chymhwyso arfer gorau.

Mae'r Siarter yn sefydlu safle gweithgaredd archwilio mewnol o fewn pob Cyngor, ynghyd â'r llinellau adrodd, gan awdurdodi mynediad at gofnodion, personél, ac eiddo ffisegol sy'n berthnasol i gyflawni'r gwaith archwilio ac yn diffinio cwmpas y gweithgareddau archwilio mewnol.

Mae Pennaeth Archwilio Mewnol yn gyfrifol am adolygu'r Siarter a'i chyflwyno i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio pob Cyngor yn flynyddol i'w hadolygu a'i chymeradwyo yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Mae'r RIAS yn ymrwymedig i fodloni'r safonau a nodwyd yn Fframwaith Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ac adroddir am unrhyw wyriadau sylweddol oddi wrth y Safonau wrth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Diweddarwyd y Siarter i gynnwys yn Adran 2.17, "yn ogystal â'r Cod Moeseg, rhaid i staff gydymffurfio â Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus a Chod Llywodraethu Corfforaethol Cyngor Bro Morgannwg, y cyfeirir atynt yn Atodiad 3 – Gofynion Ychwanegol."

Hefyd, diweddarwyd paragraff 4.11 o’r Siarter, sy’n ymwneud ag Asesiadau Allanol, i adlewyrchu bod hunanasesiad cynhwysfawr a manwl wedi cael ei gynnal yn ystod 2022 ac wedi cael ei rannu â’r aseswyr allanol ym mis Tachwedd 2022. Mae asesiad allanol RIAS yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ac i gael ei gwblhau ym mis Ebrill 2023.

Mewn ymateb i’r cyflwyniad, gofynnodd Aelod, gan gyfeirio at adran 2.12, “Bydd Pennaeth Archwilio Mewnol yn anelu at gael perthnasoedd gwaith cadarn a sianeli cyfathrebu ag Aelodau Etholedig ac yn neilltuol, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Cabinet a Phwyllgorau Craffu,” sut y byddai hyn yn gweithio'n ymarferol, ac a oedd yna awgrymiadau o ran arfer gorau.

Dywedodd Pennaeth y RIAS fod hyn yn dangos ei annibyniaeth ef ac annibyniaeth ei dîm. Os oes gan unrhyw Aelod etholedig bryderon ynghylch sut mae busnes y Cyngor yn gweithredu, yna gall ddod ato i drafod y pryderon. Gwnaeth yn glir ei fod yn rhan o’r weithdrefn chwythu’r chwiban ac felly, os oedd gan Aelod etholedig bryder difrifol ynghylch afreoleidd-dra neu aneffeithlonrwydd, gallai ddod yn uniongyrchol ato ef.

Fel dilyniant, gofynnodd yr Aelod sut y gellid cyfleu hyn i bob Aelod etholedig. Dywedodd Pennaeth RIAS y byddent yn ystyried sut i gyfleu hyn fel rhan o’u gwaith yn 2023-24. Gofynnodd y Cadeirydd a oedd hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gadawodd y mater gyda’r Swyddogion i'w ystyried.

Gofynnodd Aelod arall, gan fod Pennaeth y RIAS wedi mynychu un neu ddau o Bwyllgorau Llywodraethu ac Archwilio eraill ers iddo ddechrau yn ei swydd, a oedd unrhyw bwyntiau wedi cael eu codi yn y cyfarfodydd hynny a allai fod o ddiddordeb i'r Aelodau.

Mewn ymateb, nododd Pennaeth y RIAS y bu sylwadau ac awgrymodd y gallai baratoi crynodeb o'r holl bwyntiau a godwyd ar draws y pedwar pwyllgor ac yna eu cyflwyno mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Roedd un o’r Aelodau Lleyg yn meddwl tybed, yn hytrach na dim ond cyflwyno newidiadau i’r Siarter yn yr adroddiad eglurhaol, y gellid tynnu sylw atynt yn nhestun y ddogfen. Awgrymodd Pennaeth RIAS y byddent yn ystyried hynny ac yn gweithredu arno ar gyfer 2023-24.

Ychwanegodd y Cadeirydd un pwynt pellach am y berthynas rhwng y RIAS ac Aelodau etholedig, gan nodi bod angen ystyried yr Aelodau Lleyg hefyd. Gwnaeth Pennaeth y RIAS yn glir y byddai’n ystyried hynny ar gyfer yr adolygiad o Siarter Archwilio Mewnol 2023-24 ac yn adrodd yn ôl yn unol â hynny.

<u>PENDERFYNWYD:</u>

Bod Aelodau'r Pwyllgor wedi ystyried a chymeradwyo'r Siarter Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol ar gyfer 2023-24 fel y'i hatodwyd yn **Atodiad A** i'r adroddiad.

67. <u>POLISI ATAL OSGOI TRETHI</u>

Pwrpas yr adroddiad oedd cyflwyno’r Polisi Atal Osgoi Trethi wedi ei ddiweddaru i’r pwyllgor cyn cyflwyno’r Polisi i’r Cabinet i’w gymeradwyo ym mis Mehefin 2023.

Dywedodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid fod y Cyngor wedi ymrwymo i sefydlu a chynnal trefniadau effeithiol i atal a chanfod achosion o lwgrwobrwyo, llygredd ac osgoi trethi mewn perthynas â gwasanaethau'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i bob Aelod a gweithiwr ddangos y safonau uchaf o onestrwydd ac uniondeb, ac mae hyn yn cynnwys cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Mae gan y Cyngor bolisïau Gwrth-dwyll a Llwgrwobrwyo a Gwrth-wyngalchu Arian i gefnogi trefniadau effeithiol i atal a chanfod achosion o lwgrwobrwyo a llygredd, sy'n cael eu monitro a'u hadolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

Mae’r llywodraeth yn credu y dylai cyrff perthnasol fod yn atebol yn droseddol os ydynt yn methu ag atal y rhai sy’n gweithredu dros neu ar eu rhan rhag hwyluso osgoi talu trethi yn droseddol. Felly, mae’r polisi hwn ar osgoi trethi yn mynd i’r afael yn benodol ag atal osgoi trethi ac yn darparu dull cydlynol a chyson ar gyfer yr holl weithwyr ac unrhyw berson sy’n cyflawni gwasanaethau ar gyfer neu ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r polisi’n amlinellu cyfrifoldebau staff, a'r ymrwymiad sydd ei angen ar lefel uwch o fewn y Cyngor i weithredu'r mesurau sydd eu hangen i gyfyngu ar y graddau yr ydym yn agored i'r risg hon. Mae hefyd yn mynd i'r afael â’r ffordd y dylid rhoi gwybod am bryderon, yr hyfforddiant a'r wybodaeth a fydd ar gael i staff yn hyn o beth a hefyd sut y caiff y polisi ei adolygu.

Cymeradwyodd y Cabinet y polisi yn erbyn osgoi talu trethi ym mis Chwefror 2021. Mae’r ddogfen a gyflwynwyd i’r pwyllgor yn bolisi sydd wedi cael ei ddiweddaru. Mae'r adolygiad hwn yn diweddaru'r polisi ac yn gwneud nifer o fân newidiadau. Mae’r rhain yn cynnwys nodi bod y Polisi’n berthnasol i Aelodau a Swyddogion, diweddaru rôl y Dirprwy Bennaeth Cyllid, nad yw bellach yn un interim, ei gwneud yn glir bod y polisi i’w adolygu bob dwy flynedd, a mân newidiadau i’r cyflwyniad a’r fformat.

Gofynnir i aelodau’r pwyllgor ystyried y polisi fel rhan o’u rôl i gael sicrwydd ynghylch trefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli risg y Cyngor. Caiff y polisi ei ystyried gan y Cabinet ym mis Mehefin.

Holodd Aelod faint o bobl oedd wedi cael eu herlyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf am beidio â thalu Treth y Cyngor. Dywedodd y Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid nad oedd y ffigwr ganddi gyda hi ond y gallai ei roi i'r Aelod y tu allan i'r cyfarfod.

Trafododd Aelod arall yr her o adnabod pobl ‘gysylltiedig’ â’r Cyngor sy’n darparu gwasanaethau ar ei gyfer neu ar ei ran ac a oes unrhyw rai ohonynt yn ceisio osgoi talu trethi ai peidio.

Mewn ymateb, atgoffodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid yr Aelodau fod gan y Cyngor brosesau tynn iawn yn eu lle o ran y ffordd y caiff pobl eu talu. Mae'n ymwneud â bod staff yn ymwybodol pan fyddant yn delio â rhywbeth sydd y tu allan i'n prosesau arferol. Er enghraifft, os bydd rhywun yn gofyn am arian parod mewn llaw yn hytrach na mynd drwy ein prosesau talu arferol, mae gennym brosesau ar waith i wirio a yw hynny'n digwydd, a hefyd mae ein staff wedi cael eu hyfforddi'n dda ac yn gallu codi unrhyw faterion sy'n peri pryder. Aeth ymlaen i ddweud nad oedd yn meddwl bod y Cyngor wedi cael unrhyw achosion mewn perthynas â'r mater penodol hwn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a fyddai'n awgrymu bod y prosesau'n eithaf tynn.

Awgrymodd Aelod arall mai’r argraff a gafodd ef oedd bod y polisi yn gynhwysfawr iawn. Roedd yn cynnwys rhai sefyllfaoedd ac enghreifftiau arbennig o ddefnyddiol. Roedd

hefyd yn galonogol bod adran ar gontractio allanol wedi cael ei chynnwys oherwydd gweithgareddau a gyflawnir gan sefydliadau fel Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen a Halo.

Dywedodd Aelod arall ei fod yn croesawu’r adroddiad hwn yn llwyr.

PENDERFYNWYD:

Nododd y Pwyllgor y Polisi Atal Osgoi Trethi oedd wedi ei ddiweddaru sydd ynghlwm yn **Atodiad A** ac argymhellodd ei fod yn cael ei anfon ymlaen i'r Cabinet i'w gymeradwyo.

68. BLAENRAGLEN WAITH 2023-24

Pwrpas yr adroddiad hwn oedd gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer y Flaenraglen Waith arfaethedig ar gyfer 2023-24.

Dywedodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid y gallai'r rhestr o eitemau i'w trafod mewn cyfarfodydd penodol gael eu newid, er mwyn cymryd i ystyriaeth eitemau eraill fydd angen eu hystyried, a ffactorau gweithredu.

Dylid nodi bod dyddiadau cyfarfodydd yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor yn ei Gyfarfod Blynyddol a gynhelir ar 17 Mai 2023.

Gyda golwg ar eitemau penodol, cafodd yr adroddiad ar Gwynion Corfforaethol ei ohirio tan fis Mehefin ac nid yw ar y Flaenraglen Waith hon, ond daw i gyfarfod mis Mehefin, a chaiff seiberddiogelwch ei godi fel rhan o’r asesiad risg corfforaethol. At hynny, bydd y datganiad cyfrifon yn dod i gyfarfod yn y dyfodol, fel y bo’n briodol.

Gofynnwyd i'r aelodau a oedd unrhyw adroddiadau ychwanegol yr hoffent eu cael ar y Flaenraglen Waith, neu unrhyw Swyddogion yr hoffent eu gwahodd i gyfarfodydd.

Dywedodd Aelod y byddai'n briodol derbyn diweddariad ar Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

PENDERFYNWYD:

Bu'r Pwyllgor yn ystyried a chymeradwyo'r Flaenraglen Waith ar gyfer 2023-24.

Cytunwyd y câi mater diogelwch data ei gynnwys fel rhan o'r Asesiad Risg Corfforaethol, ac y dylid gwahodd Aelod y Cabinet a'r Swyddogion sydd â chyfrifoldeb am y materion hyn i'r cyfarfod nesaf.

Cytunwyd y câi’r adroddiad ar Gwynion Corfforaethol ei ychwanegu at y Flaenraglen Waith i'w gyflwyno i gyfarfod mis Mehefin y pwyllgor.

Cytunwyd i roi diweddariad ar Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ar y Flaenraglen Waith yn y flwyddyn i ddod.

69. MATERION BRYS

Dim